

Cyflwyniad

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i Mentrau Iaith Cymru i weithredu cynllun grant ar gyfer cefnogi gwyliau cymunedol cerddorol Cymraeg / Cymreig yn 2019 – 20.

Y Nod

Nod y Cynllun yw hybu gwyliau cymunedol gyda phwyslais ar gerddoriaeth boblogaidd Cymraeg drwy gynnig cefnogaeth ariannol i sefydliadau a grwpiau lleol i'w cynorthwyo gyda'r gwaith o drefnu a chynnal gweithgaredd sy'n cyfrannu at fwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn gymunedol.

Diffiniad:

Gŵyl gerddorol - digwyddiad gydag elfen o gerddoriaeth fyw yn gryf, diwrnod neu fwy o hyd mewn lleoliad agored neu mewn sawl lleoliad sy'n agored i bobl o bob oed yn y gymuned.

Cymunedol - digwyddiad sy'n denu llai na 10,000 o ymwelwyr

Cymraeg / Cymreig - yn dathlu diwylliant Cymru, hunaniaith Gymreig a'r iaith Gymraeg

Cerddoriaeth boblogaidd - adnabyddir fel y 'Sin Roc Gymraeg'

Y Gronfa

Cyfanswm y gronfa ar gyfer 2019/20: **£50,0000**

Uchafswm y grant a ddyrennir i unrhyw sefydliad / grŵp fydd **£5,000**

Pwy sy'n cael ymgeisio

Bydd y Cynllun yn agored i'r Mentrau Iaith sydd naill ai yn cynnal Gŵyl am y tro cyntaf, neu wedi sefydlu yn y 3 blynedd diwethaf, neu sydd yn cynnwys elfen newydd eleni.

Mae ceisiadau yn gorfod dod drwy'r Mentrau Iaith, gall grwpiau cymunedol gysylltu gyda'u Menter Iaith lleol i wneud cais drwy'r Fenter.

Y Ceisiadau

Gwyliau Cymunedol Cerddorol Cymraeg

Bydd disgwyl i'r ceisiadau gynnwys tystiolaeth gadarn o'r elfennau allweddol canlynol:

- bod yr Ŵyl yn cael ei chynnal drwy gyfrwng y Gymraeg
- y galw am gynnal y digwyddiad
- sut fydd y digwyddiad yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ac yn estyn allan i ddenu cynulleidfaoedd newydd i'r Gymraeg
- cyfraniad gwirfoddolwyr i'r gwaith o drefnu a chynnal
- cynllun marchnata effeithiol a defnydd effeithiol o'r cyfryngau cymdeithasol
- cerddoriaeth Gymraeg ac artistiaid sy'n perfformio drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael llwyfan
- gwaddol y tu hwnt i'r digwyddiad – beth yw'r bwriadau o ran gweithredu pellach?

Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr llwyddiannus greu adroddiad terfynol a'i yrru nôl i MIC o fewn deufis o gynnal y digwyddiad, bydd yr adroddiad yn gofyn am fanylion megis:

- Gwybodaeth gwariant y grant
- Nifer mynychwyr i'r ŵyl
- Sut fesurwyd llwyddiant?
- Beth fyddwch yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf?
- Beth fyddwch yn argymhell newid am y system grant yma os yw'n digwydd eto yn y dyfodol?
- Dyfyniadau gan fynychwyr a lluniau / clipiau fideo o'r digwyddiad y bydd hawl i MIC eu defnyddio yn y dyfodol

Bydd y ffurflen creu adroddiad terfynol yn cael ei danfon i'r ymgeiswyr llwyddiannus.

FAQs

1. Pwy sy'n cael ymgeisio?
 - a. Mae'r cynllun yn agored i'r Mentrau Iaith, ac i unrhyw gyrff neu gymdeithasau cymunedol eraill trwy gydweithrediad gyda Mentrau Iaith.
 - b. Bydd y panel yn ystyried hyd at 3 cais o bob sir yng Nghymru.
2. Sut mae mynd ati i ymgeisio?
 - a. Bydd Menter Iaith sydd am ymgeisio i wneud cais ar gyfer gŵyl maent yn ei drefnu eu hunain yn gofyn am ffurflen gais gan MIC a'i ddychwelyd wedi'i lenwi cyn dyddiad cau yn nodi taw nhw yw'r unig drefnwyr.
 - b. Bydd corff neu gymdeithas arall sydd eisiau gwneud cais yn cysylltu gyda'u menter lleol / cyfagos er mwyn gwneud cais ar y cyd gyda'r fenter, yna'n dilyn yr un broses a'r uchod ond gan nodi dros ba gorff maent yn gwneud y cais ar eu cyfer.
3. A fydd y mentrau yn gallu gwneud cais ar ran/mewn partneriaeth gyda chorff arall?

Gwyliau Cymunedol Cerddorol Cymraeg

- a. gweler 1b
4. Beth fyddwch chi'n fodlon ariannu?
 - a. Byddwn yn ariannu unrhyw ddirgwyddiadau sy'n cyfateb i'r diffiniad o wyl gyda than 10,000 o fynychwyr sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg a'r gymuned. Dylent ddilyn yr amodau yn adran 5 o'r ddogfen hon.
5. Faint fydd % lefel y grant?
 - a. Bydd angen i'r ymgeiswyr fod ag o leiaf un ffynhonell ariannol arall ar gyfer cynnal yr wyl ac felly ni fyddwn yn ariannu 100% o gostau'r wyl.
6. Pwy fydd yn asesu'r ceisiadau?
 - a. Bydd panel annibynnol yn asesu'r ceisiadau. Ni fydd aelod o staff neu bwyllgor Menter leol ar y panel hwn nag unrhyw aelod staff o Lywodraeth Cymru
7. Sut fyddwch chi'n monitro a rhyddhau arian
 - a. Byddwn yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr drwy lythyr os ydynt wedi bod yn llwyddiannus neu beidio o fewn mis wedi'r dyddiad cau. Byddwn yn prosesu'r taliad unwaith bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymateb i'r llythyr hwnnw gyda rhif archeb. Bydd yr arian yn cyrraedd eu cyfrif o fewn 10 diwrnod gwaith i'w hymatebiad a byddwn yn gofyn am gadarnhad ei fod wedi cyrraedd.
8. Sut mae delio gyda cwynion
 - a. Byddwn yn delio gyda chwynion yn unol â pholisi gwynion MIC gan ddilyn rheolau Cais am Wybodaeth.

Y Cytundeb (Llywodraeth Cymru a Mentrau Iaith Cymru)

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

- darparu swm o £50,000 i Mentrau Iaith Cymru ar gyfer y Gronfa
- darparu cefnogaeth ariannol i Mentrau Iaith Cymru i sicrhau gweithrediad effeithiol o'r Cynllun o ran dyletswyddau gweinyddol a rheolaethol
- cytuno gyda Mentrau Iaith Cymru ar gynnwys y canllawiau i ymgeiswyr ar gyfer y Cynllun
- cytuno gyda Mentrau Iaith Cymru ar y broses asesu ceisiadau gan sicrhau fod y broses yn dryloyw a theg
- cytuno ar y dyraniad cyn cyhoeddi

Gwyliau Cymunedol Cerddorol Cymraeg

Cyfrifoldeb Mentrau Iaith Cymru

- Cyfrifoldeb Mentrau Iaith Cymru fydd gweithredu a gweinyddu'r cynllun grant a'r prosesau ynghlwm â hynny sy'n cynnwys:
 - creu canllawiau ar gyfer ymgeiswyr grant
 - creu ffurflen gais
 - hysbysebu a gwahodd ceisiadau
 - darparu datganiadau i'r wasg yn ymwneud a'r cynllun
 - sefydlu panel ar gyfer asesu'r ceisiadau a dyrannu grantiau sy'n cynnwys un aelod annibynnol
 - paratoi llythyr cynnig ac amodau grant ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus
 - rhyddhau taliadau yn brydlon ac yn unol a'r cytundeb gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus
 - sicrhau fod derbynwyr y grantiau yn darparu'r adroddiad terfynol yn dilyn cynnal yr Ŵyl mewn dull a gytunir gyda Llywodraeth Cymru.
 - adrodd yn ôl i'r Llywodraeth ar derfyn cyflawniad y Cynllun yn 2019/20.
 - sicrhau fod o leiaf 10 Gŵyl yn cael eu cefnogi yn ystod 2019/20 drwy'r Cynllun yma
 - ymateb i ymholiadau y cyhoedd yn ymwneud a'r cynllun
 - cyhoeddi gwybodaeth am y Cynllun ar wefan Mentrau Iaith Cymru
- Mentrau Iaith Cymru fydd a'r penderfyniad terfynol ar ddyraniad y Grantiau.